



**Y Prawf Cyfieithu ar y Pryd i'r Saesneg
15 Mehefin 2021
Adroddiad Cyffredinol**

Y Prawf CAP

Eleni, oherwydd cyfyngiadau yn sgil lledaeniad COVID-19, cynhaliwyd y Prawf CAP i'r Saesneg 'o bell' gan ddefnyddio Zoom. Roedd y trefniadau technegol dan ofal CTV Sound Studios, Caerdydd, gyda pheiriannydd sain proffesiynol yn gyfrifol am ddarparu'r darnau prawf ar Zoom ac am recordio cyfieithiadau'r ymgeiswyr. Goruchwyliwyd y broses brofi gan Reolwr Systemau'r Gymdeithas.

Yr ymgeiswyr

Cafwyd saith ymgeisydd y tro hwn.

Y darnau prawf

Darn 1: 'Y Celfyddydau yng Nghymru Ôl-COVID' – rhan o sgwrs banel a noddwyd gan Nation.Cymru ac a gynhaliwyd fel rhan o arlwy Eisteddfod Amgen 2020.

Darn 2: Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd 2020/21 – 2026/27 - rhan gyntaf trafodaeth yng nghyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd.

Roedd y darn cyntaf yn sgysiol ac yn lled anffurfiol, a'r ail yn fwy technegol ei naws, er gwaethaf ysgafnder y drafodaeth. Ym marn y Prif Arholwr a'r aseswyr, roedd y darnau'n heriol mewn mannau ond yn brawf teg ar allu cyfieithydd ar y pryd profiadol ac roedd natur 'rithwir' y prawf yn adlewyrchu profiad bob dydd cyfieithwyr ar y pryd dros y pymtheng mis diwethaf.

Y safon

Er i bob un o'r ymgeiswyr ddangos addewid ac i'r cryfaf gyfieithu'n eglur ac ystwyth mewn Saesneg naturiol ac idiomatig, anwastad oedd y safon. Cafwyd enghreifftiau o gyfieithu effeithiol ym mhob ymgais ond methodd sawl un â chynnal momentwm wrth i'r traethu gyflymu. Efallai mai diffyg stamina oedd i gyfrif am hyn ac anogir yr ymgeiswyr aflwyddiannus i fanteisio ar bob cyfle i ymarfer a magu profiad a hyder cyn rhoi cynnig arall arni'r tro nesaf.

Geirfa

Ar y cyfan, roedd yr eirfa'n foddhaol, ac fe wnaeth y rhan fwyaf o ymgeiswyr ddefnydd da o'r wybodaeth gefndir a ddarparwyd:

syfrdanol > *astonishing*;

bwrlwm > *buzz*;

cymdeithasu – *socialising*;

lliaws > *plethora* / *abundance*;

cofleidio > *embrace*;

anhysbys > anonymous;
cylchlythyr – circular / newsletter;
Cynllun Gweithredu Tai > Housing Action Plan;
trosiant > turnover;
pwylgor craffu > scrutiny committee;
cryno > concise;
swnian > complaining;
cyfarch > address.

Fodd bynnag, cafwyd sawl enghraifft o gamgyfieithu geiriau cymharol gyfarwydd, er enghraifft:

gwleidyddion > ministers;
ymchwiliad > research;
pwylgor craffu > audit committee / central committee;
cymdeithasu – socialisation;
hawliau dynol > civil rights;
digartrefedd > people don't have houses;
pwylgor diwylliant > communication committee;
gwyliau > holidays (yng nghyd-destun eisteddfodau ac ati);
uwchraddio > adapting.

Deall, dehongli a chywirdeb

Ymhlyg yn y darnau roedd rhannau a oedd yn gofyn am sgiliau deall a dehongli da. Llwyddodd yr ymgeiswyr cryfaf i gyfleu natur a chynnwys y drafodaeth yn effeithiol gan lunio cyfieithiadau cywir a fyddai'n ennyn hyder cynulleidfa. Fodd bynnag, parodd rhuglder a rhwyddineb y cyfranwyr broblem i sawl ymgeisydd. Er bod yna ddealltwriaeth dda o gyd-destun a chynnwys y darnau, methodd sawl un â throi hynny'n ddehongliad graenus a chywir o'r hyn a ddywedwyd. Roedd y cyfieithu'n tueddu i fod yn anwastad, gydag ansicrwydd amlwg a bylchau'n tanseilio sawl ymgais.

Cystrawen, cywair ac idiom

Yma eto, roedd bwlch llydan rhwng y llwyddiannus a'r llai llwyddiannus. Cafwyd sawl enghraifft o gyfieithu rhywiog gyda chystrawen ac idiom a oedd yn cyfleu naws y gwreiddiol:

(theatr) dan ei sang > full house;
(pobl yn) tyrru > came in their droves / crowds were flocking;
cam i'r anwybod (sic) > a step into the unknown;
cychwyn ar gyfnod newydd > the beginning of a new chapter.

Fodd bynnag, cafwyd gormod o gyfieithu llythrennol a Saesneg anidiomatig a chlogyrnaidd a fyddai, mewn cyfarfod byw, yn tanseilio hyder cynulleidfa ddi-Gymraeg yng ngallu'r cyfieithydd i gyfleu neges yn gywir ac yn effeithiol:

a large number of their turnover;
the last production that we made live;
other fields involved in the Welsh Government;
she has been one of the shops who has been at the forefront since they opened;
a large amount of theatre events;
I'm happy to ask any questions you may have;
every piece of tool in the box;
on our front foot;
obviously we're going to operate on this vision and obviously take action against it.

Arddull a chyflwyniad technegol

At ei gilydd, roedd gan yr ymgeiswyr leisiau dymunol a llwyddodd rhai i argyhoeddi gyda chyfieithiadau cywir a thechneg gadarn. Ond, yn rhy aml, nid oedd y cyfieithu'n llifo'n naturiol nac yn llyfn a phrin oedd yr ymdrechion i wahaniaethu rhwng siaradwyr. Roedd tueddiad, ar brydiau, i'r cyfieithu fod yn herciog ac anwastad, ac roedd geiriau ac ebychiadau llanw ac ansicrwydd a nerfusrwydd – sy'n ddealladwy dan amodau prawf – yn brigo i'r wyneb gan lesteirio'r mynegiant.

Y canlyniad

Dyfarnwyd bod tri o'r saith ymgeisydd yn llwyddo'r tro hwn. Ym marn yr aseswyr, roedd i bob ymgeisydd ei rinweddau, ac anogir y rhai a fu'n aflwyddiannus y tro hwn i fwrw ati i ymarfer ac ennill profiad cyn rhoi cynnig arall arni'r flwyddyn nesaf. Bydd y Gymdeithas yn cynnal yr Ymarfer CAP yn yr hydref a gallai hwn fod yn gyfle ardderchog i'r ymgeiswyr hyn gael adborth pellach ar eu cyfieithu.

Gair o ddiolch

Hoffwn ddiolch i'r aseswyr am eu gwaith manwl a thrwyadl ac i'r Prif Arholwr am ei chymorth a'i harweiniad parod gydol y broses brofi hon. Yn olaf, hoffwn ddiolch i staff y Gymdeithas a'u llongyfarch am fod yn barod i fentro i dir newydd mewn amgylchiadau cwbl eithriadol. Gwta ddwy flynedd yn ôl roedd cyfieithu o bell yn anathema i'r rhan fwyaf o gyfieithwyr ar y pryd yng Nghymru, ond ymddengys ei fod bellach yn rhan o'r 'normal newydd'. Gobeithio y bydd llwyddiant y broses brofi rithwir hon yn annog y cyfieithwyr ar y pryd hynny na fyddent wedi dymuno teithio i stiwdio, am ba reswm bynnag, i roi cynnig ar y Prawf CAP i'r Saesneg.